ARCHIFAU MORGANNWG

~ COFNODION YR HEDDLU ~

MYNEDIAD I GOFNODION YR HEDDLU

Mae mynediad i rai cofnodion yr heddlu wedi'i gyfyngu gan fod llawer ohonynt yn cynnwys gwybodaeth sensitif am unigolion. Fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Archifdy cyn ymweld, er mwyn gwneud yn siŵr y gellir gweld y cofnodion yn ein hystafelloedd chwilio cyhoeddus.

YR HEDDLU YM MORGANNWG

Mae gwreiddiau'r heddlu cyfoes i'w gweld yn system weinyddol gynharach y plwyf. Swyddog plwyf oedd y cwnstabl a oedd wedi'i benodi i gynnal cyfraith a threfn ac arestio unrhyw un oedd yn tarfu ar hynny.

Oherwydd datblygiad diwydiannol a thwf cyflym yn y boblogaeth drefol roedd cwnstabliaid plwyf yn methu ag ymdopi'n gynyddol. Ym 1829 pasiwyd Deddf Heddlu Llundain i gynorthwyo'r gwaith o orfodi'r gyfraith yn ardal Llundain. Gwnaed darpariaeth wedyn yn Neddf Corfforaethau Dinesig 1835, i alluogi bwrdeistrefi i sefydlu eu heddluoedd eu hunain, ac yn sgil Deddf Heddlu Sirol 1839, roedd ardaloedd gwledig yn gallu gwneud yr un peth.

Ym 1836 cafodd heddluoedd eu sefydlu ym mwrdeistrefi Caerdydd, Castell-nedd ac Abertawe; dilynodd Merthyr Tudful ym 1908 pan gafodd ei chreu'n fwrdeistref sirol. Ar gyfer rhannau o'r sir nad oedd yn cael eu cwmpasu gan yr heddluoedd bwrdeistref, penderfynodd yr Ynadon Heddwch yn y Llysoedd Chwarter y dylid sefydlu heddlu prawf. Roedd yn cynnwys chwe swyddog ac un uwch-arolygydd ac ar y cychwyn yn cwmpasu Meisgyn Isaf a Chaerffili yn unig. Ar sail ei lwyddiant penderfynwyd sefydlu heddlu newydd o'r enw Heddlu Morgannwg i gwmpasu'r sir gyfan ym 1841. Cafodd heddlu bwrdeistref Castell-nedd ei gyfuno â heddlu'r sir ym 1947 ond parhaodd heddluoedd bwrdeistref eraill a Heddlu Morgannwg ochr yn ochr hyd nes iddynt gyfuno i ffurfio Heddlu De Cymru ym 1969.

Roedd yr heddluoedd bwrdeistref yn cael eu rheoli gan Bwyllgor Heddlu eu cyngor. Ar y dechrau, cafodd Heddlu Morgannwg ei weinyddu gan Lys Chwarter Llys Morgannwg trwy Bwyllgor yr Heddlu. Ym 1889, gyda chreu Cyngor Sir Morgannwg, cafodd hwn ei ddisodli gan Gyd-bwyllgor Sefydlog oedd yn cynnwys cynrychiolwyr y Llys a'r Cyngor.

COFNODION YR HEDDLU

- Heddlu Morgannwg
- Heddlu Bwrdeistref Caerdydd
- Heddlu Bwrdeistref Merthyr Tudful
- Heddlu Bwrdeistref Castell-nedd
- Heddlu Bwrdeistref Abertawe
- Heddlu De Cymru

COFNODION YR HEDDLU

Heddlu Morgannwg

Heddlu Morgannwg oedd yr heddlu mwyaf yn yr hen sir. Yn wreiddiol, cafodd ei rannu'n bedwar rhanbarth a gafodd eu had-drefnu ym 1911 i wyth rhanbarth, pob un â'i bencadlys ei hun.

- Cofnodion Pwyllgor yr Heddlu Llysoedd Chwarter, 1843-1878 (Q/A/M/6)
- Cofnodion ac adroddiadau Cyd-bwyllgor Sefydlog, 1889-1969 (GC/SJ)
- Adroddiadau a ffurflenni chwarterol y Prif Gwnstabl, 1842-1889 (Q)
- Rhestri cyflog wythnosol, 1844-1863 (anghyflawn) (Q)
- *Personél:* Llyfr gweinyddu llwon, 1841-1892; Ffurflenni ymgeisio a thystlythyrau, tua 1863-1921; Cofrestri heddlu, tua 1895-1955, 1955-1970 (DCON/1-3, 285/1)
- *Gweinyddu:* Gorchmynion a chylchlythyrau, 1876-1969 (DCON/22-36, 274-278)
- Cofnodion Ffederasiwn Heddlu Morgannwg, 1919-1969 (DCON/65-68, 282/3)
- Y Prif Gwnstabl Lionel Lindsay: dyddiaduron 1899-1941 (anghyflawn), gohebiaeth, llyfr ysgrifennu llythyrau (DCON/74-82, 284/1)
- Llyfr nodiadau swyddogion, tua 1846-1919 (DCON/167-198)
- Llyfr lloffion a thoriadau o bapurau newydd, tua 1910-1969 (DCON/210-219, 290)
- Llyfrau lloffion E R Baker ar hanes Heddlu Morgannwg, wedi'u llunio tua 1950-1969 (DCON/220)
- Cynlluniau gorsafoedd yr heddlu, 1848-1951 (DCON/232-273)

Heddlu Bwrdeistref Caerdydd

- Cofnodion Pwyllgor yr Heddlu, 1860-1873 BC/C/18/1,19/1)
- Adroddiadau'r Prif Gwnstabl i Bwyllgor yr Heddlu, 1900-1969 (DCONC/1/1)
- Gorchmynion a chylchlythyrau, 1875-1969 (DCONC/2)
- Cofrestri o droseddau, 1933-1940 (DCONC/3/1)
- Cofrestri olion bysedd a ffotograffau, 1908-1933 (DCONC/3/2)
- Llyfr cyhuddiadau, 1858-1859 (DCONC/3/3)
- Cofrestr o droseddwyr cyson, 1882-1885, 1925 (DCONC/3/5)
- Cofrestri cwest, 1892-1943 (DCONC/4/1)
- Toriadau o bapurau newydd 1889-1966 (DCONC/5)
- Cynlluniau eiddo trwyddedig, 1897-1965 (DCONC/6)
- Trwyddedu: tai cwrw, 1879-1965; rasio cŵn, 1935-1961; benthycwyr arian, 1927-1966 (DCONC/7/2-4)
- Cofrestri cwnstabliaid, 1862-1907 (DCONC/9/1/1,2)
- Taflenni cofnod Arolygwyr a ditectifs, tua 1889-1917 (DCONC/9/1/3)
- Cofrestr o benodiadau ac ymddiswyddiadau, 1894-1917 (DCONC/9/1/4)
- Ffeiliau personol Heddlu Arbennig Gwirfoddol, tua 1941-c1944 (DCONC/2/1-117)
- Ffeiliau personél (DCONC/11)

Heddlu Bwrdeistref Merthyr Tudful

Tan 1908 roedd Merthyr yn ffurfio rhan o ranbarth A o Heddlu Morgannwg.

- Adroddiadau'r Prif Gwnstabl i Bwyllgor yr Heddlu, 1908-1913, 1939-1942 (DCONMT/1)
- Adroddiadau Blynyddol, 1946-1969 (DCONMT/2)
- Cofrestr o ymgeiswyr, 1921-1969 (DCONMT/10/1)
- Cofrestri o droseddau, 1951-1969 DONMT/5)
- Cofrestri o bedleriaid a thystysgrifau, 1924-1972 (DCONMT/7)
- Cofrestr o drwyddedau tafarnau, 1960-1968 (DCONMT/8)
- Papurau gorsafoedd yr heddlu, 1957-1971 (DCONMT/9)
- Toriadau o bapurau newydd, 1903-1966 (DCONMT/11/2)
- Ffeiliau personél, (DCONMT/12)

Heddlu Bwrdeistref Castell-nedd

- Cofrestri o gwnstabliaid, 1869-1903, 1872-1924 (DCON/136, 137)
- Llyfrau cyflog, 1873-1889, 1915, 1925-1940 (DCON/138-141)
- Rheolau, 1884 (DCON/145)
- Adroddiadau'r Prif Gwnstabl, 1905-1918 (DCON/143), 1923-1925 (DCONN/1)
- Llyfr lloffion, 1896-1919 (DCONN/2)
- Trwyddedau pedleriaid, 1888-1942 (DCON/142)
- Gohebiaeth mae awyr Castell-nedd, 1927 (DCON/146)
- Ffeiliau Heddlu Rhyfel Neilltuedig, Corfflu Heddlu Cynorthwyol y Merched, Gwasanaethau Negesydd Cynorthwyol, 1939-1946 (DCONN/4)

Heddlu Bwrdeistref Abertawe

Mae cofnodion Heddlu Bwrdeistref Abertawe yn cael eu cadw gan Wasanaeth Archif Gorllewin Morgannwg

Heddlu De Cymru

Ffotograffau unigolion, grwpiau a sawl agwedd ar waith yr heddlu a chyfarpar o'r holl heddluoedd cyfansoddol, C19-20 (DSWPA/PH)

MYNEGEION

Cynhyrchwyd mynegeion i rai o'r cofnodion, yn enwedig ar gyfer cofnodion personél a chofrestri o gwnstabliaid. Mae mynegeion ar gael ar gyfer y dogfennau a'r cyfresi canlynol:

Heddlu Morgannwg

- Llyfr gweinyddu llwon, 1841-1892 (DCON/1)
- Ffurflenni ymgeisio'r heddlu a thystlythyrau, *tua* 1863-1921 (DCON/2)
- Cofrestri o heddlu, *tua* 1890 (DCON/3)
- Man geni aelodau hyd at 12 Mehefin 1923 (DCON/4)
- Rhestr o Bensiynwyr (DCON/5)
- Ffeiliau personél, mynegai cyfenw ar gael

Heddluoedd bwrdeistref

- Ffeiliau personél, cofrestri o gwnstabliaid Caerdydd
- Ffeiliau personél Merthyr Tudful

Cofnodion Awdurdod Heddlu De Cymru

Ym 1969, cyfunwyd Heddlu Morgannwg a Heddluoedd Bwrdeistref i ffurfio Heddlu De Cymru, sy'n cael ei weinyddu a'i gynnal o un pencadlys canolog ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

LLYFRAU DEFNYDDIOL SY'N CAEL EU CADW YN LLYFRGELL ARCHIFDY MORGANNWG

Mae'r llyfrau a'r erthyglau canlynol sy'n ymwneud â hanes yr heddlu a throsedd ar gael i gyfeirio atynt yn llyfrgell Archifdy Morgannwg.

David T. Hawkings, *Criminal Ancestors. A Guide to Historical Criminal Records in England and Wales, 1996*

David J.V. Jones, *Crime in 19th Century Wales,* 1992

David J.V. Jones, *Crime and Policing in the 20th Century: the South Wales Experience,* 1996

E.R. Baker, 'The beginnings of the Glamorgan County Police Force' yn *Glamorgan Historian* cyfrol 2, 1965

Eira M. Smith, 'Merthyr Tydfil Borough Police, 1908-1938' yn *Merthyr Historian,* cyfrol 4, 1989

Glen A. Taylor, 'History of Neath Borough Police Force'
yn *Neath Antiquarian Society Transactions 2il gyfres, cyfrol 9, 1939*

Martin Slallion a David S Wall *The British Police Officer. Police Forces and Chief Officers, 1829-2000*

COFNODION ERAILL SY'N YMWNEUD Â HEDDLUOEDD YN ARCHIFDY MORGANNWG

Gellir dod hyd i wybodaeth ychwanegol am yr heddlu yng nghofnodion y Llysoedd Chwarter, y Cyngor Sir a'r Cynghorau Bwrdeistref. Y rheswm am hyn yw bod yr awdurdodau lleol yn cyfrannu at y gwaith o weinyddu heddluoedd.